OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

PROSPECTIVE

## RHAN 11

Dyletswyddau rheolwyr awdurdodau lleol

### Goruchwylio digonolrwydd adnoddau

**46.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd i'r darparwr awdurdod lleol am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 46 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Adroddiadau eraill i'r darparwr awdurdod lleol

**47.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr awdurdod lleol—

(a) am unrhyw bryderon ynghylch darparu'r gwasanaeth,

(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac

(c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 47 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Ymgysylltu â phlant ac eraill

**48.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr awdurdod lleol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth, a

(d) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth,

ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.

(2) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr awdurdod lleol er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 48 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion

**49.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi cwynion.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 49 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion

**50.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â chadw cofnodion, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod y cofnodion y mae rhaid iddynt gael eu cadw o dan reoliad 37 yn gywir ac yn gyflawn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 50 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol

**51.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 51 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Adolygiad o ansawdd y gofal

**52.**—(1) Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 52 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

### Cymorth ar gyfer codi pryderon

**53.** Rhaid i reolwr yr awdurdod lleol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr awdurdod lleol a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 53 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/04/2019. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, Dyletswyddau rheolwyr awdurdodau lleol.